Cofnodion Cyfarfod
Cyngor Cymuned Pistyll

Nos Fawrth 10fed o Ragfyr, 2019 am 7:00y.h

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

Presenol		Sara Williams **(SW),** Ynyr Ellis **(YE)**, Griffith Jones **(GJ),** Gwilym Williams **(GW)**, Lizbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, Emlyn Hughes **(EH)**, Cyng. Aled Jones **(AJ).**
1.		**Hysbysiadau'r Cadeirydd**
2.		**Ymddiheuriadau ac absenoldeb** Olwen Roberts **(OR)**, John Owen **(JO)**, William Jones **(WJ)**.
3.		**Datgan Diddordeb** Dim
4.		**Diweddariadau asedau** Ni godwyd unrhyw sylwadau yn ystod y Cyfarfod
5.		**Cofnodion Cyfarfod Tachwedd, 2019**
	5.1	**Cyflwyno a mabwysiadu** Cynigiodd YE gywirdeb y Cofnodion, eiliodd GJ a chytunodd pawb
	5.2	**Materion yn codi**
	5.2.1	<u>Materion Lleol</u> Nodwyd SP nad oedd gwrych ar wal Dy'r Hen Eglwys byth wedi ei thorri, awgrymodd GJ i'r Clerc gysylltu ar Cyngor Sir yn ei hysbysu nad oedd y perchennog yn byw ar y sefyllfa. Y Clerc i weithredu
	5.2.2	<u>Gwersylla yn y Maes Parcio</u> Diweddarodd y Clerc eu bod wedi cysylltu ar Cyngor Sir ac eu bod yn ymwybodol fod unigolyn yn trafeilio o amgylch yr ardal yn gwersylla. Cytunwyd bydd Swyddog o Adran Digartref yn ymweld ar unigolyn i gynnig cymorth.

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....

Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas *E.bost: ccpistyll@outlook.com*
1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP *Ffon symudol: 07979438307*

		Trafodwyd pwysigrwydd sicrhau nad oedd y safle parcio yn cael ei gam-drin a'i weld fel safle gwersylla, yn sgil hyn cynigiodd SP i'r Clerc wneud ymholiadau am bris arwydd Dim Gwersylla. Cytynwyd yn unfrydol. Y Clerc i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf
6.		**Ceisiadau Cynllunio** Dim
7.		**Y Ganolfan** Rhannwyd yr Is Brydles o flaen llaw i'r aelodau gan SP. Codwyd cwestiwn os oedd unigolyn annibynnol cyfreithiol wedi cael golwg arni gan eu bod mor debyg i'r brydles flaenorol. Y Clerc i ymgynghori gyda'r Clerc blaenorol erbyn y cyfarfod nesaf. Aeth SP ymlaen i ddiweddaru'r Cyngor • fod y ganolfan yn talu gormod am ddŵr a bod y mater mewn llaw • bod y ganolfan yn cael ei glanhau pob pythefnos • bod rhodd at gynnal a chadw'r Ganolfan gan y Cyngor Cymuned hyd yn hyn wedi archebu - goleuadau newydd, llwyfan symudol, a bydd y Ganolfan yn cael ei beintio yn y dyfodol agos.
8.		**Bin yn y Maes Parcio** Derbyniwyd gwybodaeth gan swyddog AHNE bod bin ail gylchu sylweddol ar gael i'r Cyngor. Yn dilyn trafodaeth ar y mater cynigiodd LJ a chytunwyd bydd peryg i'r maes parcio gael ei weld fel safle ail gylchu ac mae gwared â'r biniau yn gyfan gwbl ar y safle yw'r ateb gorau. Y Clerc i ddiweddaru'r Swyddog AHNE Cynigiodd GW gael arwydd Dim sbwriel hefyd i'r safle, y Clerc i weithredu.
9.		**Penderfynu Preiseb** Adolygwyd rhagamcanion 2019/20. Wedi ystyried ymrwymiadau costau arfaethedig tuag at deffiblwr i'r gymuned, arwyddion i'r maes parcio ac yn y blaen, cynigiodd GW i'r Cyngor godi'r Praesept o £10,000 i £11,500.00 am gyfnod 2020/21. Eiliodd SP a chytunodd pawb. Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.
10.		**Materion Lleol** Cynigiodd SP wneud cais i'r Cyngor Sir am dwmpathau ar y lon i'r Nant yn dilyn lledu sylweddol iddi wrth atgyweirio'r wal a phryderon am beryglon gôr yrru yn sgil hyn, cytunodd pawb. Y Clerc i weithredu. Rhan ddiddordeb rhannodd GW fod wal terfyn yr eglwys wrthi'n cael ei atgyweirio yn dilyn rhodd caredig gan aelod o'r Gymuned. Dymunai y Cyngor diolch am y rhodd ar ran y Gymuned.

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....

11.		**Gohebiaeth a Gwybodaeth**
	11.1	Apêl Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021
	11.2	Corff Gwarchod Iechyd yn gofyn i bobl i siarad am Wasanaethau Fasgwlaidd
	11.3	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc)
	11.4	Bwletin Newyddion Un Llais Cymru
	11.5	Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
	11.6	Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2020-21 - £8.32
	11.7	Gwybodaeth am adnewyddu pas bws
	11.8	Cais i'r Cyngor hysbysebu newyddion gyda'r Cambrian News Y Clerc wedi eu rhannu o flaen llaw gyda'r Aelodau, ni dderbyniwyd sylwadau yn ystod y Cyfarfod.
12.		**Cyllid**
	12.1	**Cyfrifon** Rhannwyd y Cyfrifon i'r Aelodau o flaen llaw. Adolygwyd a chymeradwywyd y Llyfr arian, Cysoniad banc, a Rhagamcanion 2019/20. Cynigiodd SW eu cywirdeb, eiliodd YE a chytunodd pawb.
	12.2	**Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf** **<u>Cyfrif Cyfredol</u>** Taliadau - £160.00 - Cyflog Clerc £ 13.24 - Treuliau Clerc £156.00 – Archwilwyr Mewnol ****Nodwyd nad oedd y siec i'r Archwilwyr Mewnol hyd yn hyn wedi ei thalu, y Clerc i wneud ymholiadau**** *Derbyniadau - £0* *Balans - <u>£7472.67</u>* **<u>Cyfrif Cadw</u>** *Derbyniadau - £ 1.67* *Balans - <u>£3406.36</u>*
	12.3	**Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod** £160.00 Cyflog £14.80 Treuliau Clerc £404.20 Gwasanaeth Archwilio Cymru
13.		**Dyddiad y Cyfarfod nesaf** 14eg o Ionawr, 2020

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....